

Mae'r **Leafer Quartet** yn bedwarawd sacsoffon deinamig a chyffrous sydd wedi eu dewis yn Artistiaid Grŵp Park Lane, ac sydd wedi ennill Gwobr Ensemble Elias Fawcett am Ensemble Rhagorol yn y Gystadleuaeth Cynghrair Dramor Frenhinol yn 2017, ac maent yn Artistiaid a ddewiswyd gan Making Music. Crëwyd y pedwarawd yn 2012 yn y Coleg Cerdd Brenhinol, ac yn ystod eu hamser yno, derbyniont Wobr Boconnoc Music. Ers hynny maent wedi bod yn perfformio ledled y DU mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys Ystafell Elgar yn Neuadd Albert, St James yn Picadilly, a'r Forge yn Camden.

Fel unigolion ac fel grŵp, mae'r pedwarawd yn brofiadol mewn amrywiaeth o genres ond yn arbenigo mewn perfformio repertoire clasurol cyfoes a thrawsgrifiadau o waith gan gyfansoddwyr clasurol. Ymhlith uchafbwyntiau eu perfformiadau mae'r cyngerdd cloi yn yr Wyl Tri Phalas <<https://www.3palacesfestival.com/>>, Malta, tri première y byd yn rhan o <<https://listenpony.com/>>gyfres cyngherddau Listenpony, <<https://www.nonclassical.co.uk/>>perfformiad anghlasurol cyntaf yn y Victoria, Dalston, a premières yn y DU o weithiau gan gyfansoddwyr cyfoes fel Ivan Fedele <<http://www.ivanfedele.eu/php/eng/home.html>>, Ed Scolding <<https://www.edscolding.co.uk/>>, Andrew Chen <<https://www.facebook.com/aschencomposer/>>ac Alexander Glyderau-Bates <<https://soundcloud.com/aglydebates>>. Gwnaeth y pedwarawd berfformio am y tro cyntaf yn Sgwâr Smith yn 2017, gan berfformio gwaith gan Giles Swayne <<http://www.gilesswayne.com/>> a Charlotte Harding <<https://www.charlottehardingmusic.com/>>, gan wneud eu perfformiad cyntaf yn Neuadd Wigmore ym mis Mai 2018. Ym mis Ionawr 2019 fe wnaethant berfformio am y tro cyntaf yn Ystafell Purcell i dŷ llawn fel rhan o *Ŵyl SoundState* Canolfan y Southbank, gyda rhaglen o waith Sacsoffon yr 21ain ganrif gan gynnwys première y byd gan Michael Cryne <<http://michaelcryne.com/>>.

Mae'r gair 'Laefer' (a yngenir leifer) yn air Eingl-Sacsonaidd am 'brwynen' a 'dalen fetel'.